

# Lauren Mather
# Cylch Meithrin Y Delyn



Fe wnaeth Lauren benderfynu dilyn y cwrs Camau yn ddiweddar er mwyn ei helpu hi i siarad Cymraeg gan ei bod yn gweithio mewn Cylch Meithrin.

## Pam?

Roedd Lauren am ddilyn y cwrs gan fod angen iddi siarad Cymraeg ar gyfer ei swydd fel ymarferydd gofal plant yn y Cylch
Un o'r prif fanteision o ddilyn y cwrs ar-lein yn ôl Lauren oedd y ffaith bod y cwrs wedi ei helpu'n fawr ar ôl gadael yr ysgol amser maith yn ôl. "Roeddwn i'n meddwl fy mod i'n gwybod y pethau angenrheidiol - ond mae gwneud y cwrs wedi rhoi mwy o ddealltwriaeth i mi o'r iaith Gymraeg ac wedi fy helpu i ddatblygu fy sgiliau."

## Canlyniad!

"Roedd cwblhau'r cwrs ar-lein mor hawdd y gallwn ei wneud ar fy nghyflymder fy hun. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i Mynediad 2."



Top Tips Lauren!

- Gwrandewch ar sut mae'r geiriau'n cael eu mynegi a'u dweud yn uchel.
- Cymryd eich amser yn gweithio drwy'r unedau.
- Parhau i ddefnyddio'r Gymraeg hyd yn oed pan nad ydych mewn gwaith gan y byddwch yn fwy hyderus wrth ei siarad.



mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Camau
Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar / Learn Welsh Scheme for Early Years Education and Childcare